**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**4ydd Chwefror 2013**

# ADBORTH Y COMISIYNYDD AR ADRODDIAD MONITRO'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Adrodd ynghylch yr adborth a ddaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2011-12.

## Y Cefndir

2 Bob blwyddyn, mae gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio adroddiad manwl ar ei Gynllun Iaith Gymraeg – yr hyn a gyflwynwyd o'r blaen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ond sydd bellach yn cael ei reoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Adroddiad Monitro yn rhoi manylion ynghylch y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chyrraedd y targedau a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth 2010-13. Cymeradwywyd yr adroddiad gan Aelodau'r Panel Gweithredol yn y cyfarfod fis Medi diwethaf, ac ers hynny mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi derbyn adborth ffurfiol ar adroddiad eleni ac wedi cyfarfod â chynrychiolwyr y Comisiynydd i fynd drwy'r adborth y fanwl.

## Gwybodaeth

3 Roedd y Comisiynydd yn croesawu sawl agwedd ar ein gwaith mewn perthynas â'r Gymraeg, ynghyd â'r cynnydd cyffredinol a wnaed wrth weithredu'r Cynllun Iaith yn ystod 2010-11.

4 O ran technoleg a meddalwedd, roedd y Comisiynydd yn croesawu ein defnydd o feddalwedd Cymraeg a'r cyfleuster 'speech enabling' ar ein gwefan, ac roedd wedi ei sicrhau ein bod yn gweithredu cronfa ddata ddefnyddiol i gynorthwyo ein dealltwriaeth o lefel y sgiliau Cymraeg a dysgu Cymraeg ymhlith ein holl staff.

5 O ran archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a chyflwyniadau, roedd y Comisiynydd yn awyddus inni gynnal y gyfran o'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg (a oedd wedi codi o 6% i bron 20% dros y ddau gyfnod adrodd diwethaf) ac roedd yn croesawu nifer y plant sy'n derbyn cyngor diogelwch tân yn Gymraeg.

6 O ran cymwysterau a hyfforddiant, roedd y Comisiynydd yn croesawu ein buddsoddiad mewn hyfforddiant ac offer cyfieithu ar y pryd, ac yn deall bod lefelau'r rhai sy'n cyrraedd lefelau 1 a 2 mewn sgiliau Cymraeg yn is oherwydd bod llai o recriwtio yn ystod y flwyddyn, ond roedd yn croesawu'r cynnydd yn y rhai sy'n cyrraedd lefelau 3-5.

7 O ran staffio a recriwtio, roedd y Comisiynydd yn deall ein bod wrthi'n mynd drwy gyfnod o newid cyflym o ganlyniad i bwysau ariannol. Mae hyn yn arwain at yr angen i ailedrych ar ein strategaeth i gyflawni ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

8 O ran hyrwyddo, ymwybyddiaeth a sgiliau Cymraeg, roedd y Comisiynydd yn croesawu'r ffaith ein bod yn cyflwyno dwy wobr i'n staff, un i gydnabod llwyddiant yn dysgu Cymraeg a'r llall i gydnabod cyfraniad i'r iaith. Cydnabuwyd bod y Fforwm Iaith a sefydlwyd yn ddiweddar yn ffordd effeithiol o fynd ati'n strategol i reoli datblygiad y Gymraeg yn y Gwasanaeth. Mae sesiwn ymwybyddiaeth iaith ar-lein, a ddatblygwyd yn ddiweddar, wrthi'n cael ei dreialu o fewn y Gwasanaeth, ac mae'r Comisiynydd yn awyddus i glywed sut y mae hyn yn dod yn ei flaen. Croesawyd ein cynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg, ynghyd â'n bwriadau i ddatblygu rhagor ar y cynllun hwn.

9 Gofynnodd y Comisiynydd am ragor o wybodaeth am nifer o agweddau penodol ar ein gwaith ym maes y Gymraeg – darparwyd hyn yn fanwl er boddhad y Comisiynydd.

10 Yn 2011 cyflwynwyd Mesur y Gymraeg, ac mae'n gosod y fframwaith cyfreithiol yn ei le er mwyn cyflwyno dyletswyddau i sefydliadau gydymffurfio â Safonau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg. Nid oes disgwyl i'r safonau hyn gael eu mabwysiadu'n gyfreithiol eto, ond mae'r Gwasanaeth eisoes yn gweithio tuag at ateb gofynion safonau drafft ac mae'n gwneud hynny drwy gydweithio â'r ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru. Fel hyn, ein gobaith yw bod yn gwbl barod i gwrdd â'r safonau pan fyddant yn derfynol. Mae'r Comisiynydd wedi dweud y bydd ein Cynllun Iaith presennol, sef 2010-13, bellach yn ymestyn hyd nes y bydd y safonau newydd yn dod i rym.

**Argymhelliad**

11 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg, ynghyd ag ymrwymiad y Gwasanaeth i sicrhau ein bod yn parhau i fonitro'r cynnydd yn y maes hwn.